



Ysgol Pentreuchaf

12. Polisi Anghenion Meddygol

Nod

Ystyrir bod gan ddisgyblion sydd â chyflyrau meddygol tymor hir (ble mae angen rheolaeth briodol er mwyn eu galluogi i ddal i gael addysg) anghenion meddygol sydd angen peth cefnogaeth gan yr ysgol.

Amcanion

Paratoi Cynllun Gofal Iechyd Unigol i bob plentyn sydd ei angen ar ôl trafodaeth gyda'r rhieni, a'r plentyn os yw'n ddigon aeddfed i drafod ei anghenion ei hun.

Canllawiau

1. Dylai'r Cynllun egluro i staff, rhieni a'r disgybl y cymorth y gall yr ysgol ei roi a'i dderbyn.
2. Dylai'r Cynllun amlinellu'n fanwl y mesurau sydd eu hangen er mwyn cefnogi disgybl mewn ysgol, yn cynnwys paratoi ar gyfer sefyllfa argyfwng.
3. Mae'n hanfodol bod y wybodaeth a gynhwysir yn y CGIU yn cael ei drin yn gyfrinachol. Mae'n ofynnol i'r pennaeth a'r disgybl ddod i gytundeb (ble bo'n bosibl), neu fel arall y rhiant, ynglyn â phwy arall ddylai gael mynediad i'r Cynllun a gwybodaeth arall ynghylch y disgybl.
4. Dylid trefnu bod copi o'r CGIU ar gael i'r nyrs ysgol a'r rhieni.
5. Gofyn i rieni disgyblion B6 a ydynt yn cydsynio i anfon y CGIU i'r ysgol uwchradd wrth i'r plentyn drosglwyddo.
6. Dylai staff gymryd gofal ychwanegol wrth oruchwylio rhai gweithgareddau er mwyn sicrhau nad yw diogelwch y disgyblion hyn a disgyblion eraill yn cael ei beryglu.
7. Mewn rhai amgylchiadau, bydd eisiau trefnu hyfforddiant perthnasol i staff yr ysgol fel bo'r angen.
8. Mae bwysig gofyn am gyngor gan Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru ynglyn â threfniadaeth rhoi moddion, triniaeth fanwl neu ymyrgar a.y.b. gyda rhai cyflyrau
9. Mae'n ofynnol i bob disgybl â Chynllun Gofal Iechyd Unigol fod ag aelod o staff a enwir yn gyfrifol am y Cynllun. Yn gyffredinol, argymhellir mai athrawes ddosbarth y disgybl ddylai gyflawni'r swyddogaeth hon.
10. Mae angen i'r Cynllun fod yn hyblyg oherwydd mae'n gyffredin i amgylchiadau plentyn amrywio ac i rai cyflyrau newid.

Casgliad

I hybu addysg pob plentyn o dan ein gofal, mae'n bwysig ein bod yn ymdrin yn sensitif â phob un, gan gynnig pob cyfle iddynt fanteisio ar yr hyn sydd gan yr ysgol i'w gynnig. I hyrwyddo hyn dylid defnyddio'r ffurflen a ddarperir yn y ffeil 'Anghenion Meddygol mewn Ysgolion' i bob disgybl sydd ag anghenion meddygol sy'n cyfiawnhau cael Cynllun Gofal Iechyd Unigol.

Adolygir: Ionawr 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____